Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru

Gorffennaf 2026

# Cynnwys


**Rhagair** 4

**Cod Ymarfer Archwilio** 6

Mae'r Cod hwn yn rhagnodi sut y mae'n rhaid cyflawni fy archwiliad a swyddogaethau penodol eraill 6

Diben archwilio'r sector cyhoeddus yw adrodd ar y defnydd o arian 8

Mae pedair egwyddor sy'n tanategu fy ngwaith archwilio – ffocws ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, bod yn gymesur a bod yn atebol 9

- Ffocws ar y cyhoedd 9
- Bod yn annibynnol 9
- Bod yn gymesur 9
- Bod yn atebol 10

Mae'r Cod hwn yn rhagnodi'r ffordd y mae'n rhaid i archwilwyr gyflawni fy swyddogaethau 11

Gofynion mewn cysylltiad â swyddogaethau 14

- Boddhad o ran trefniadau i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol 14
- Archwilio cyfrifon 16
- Arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiad wrth archwilio cyrff llywodraeth lleol 18
- Gohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb 19
- Ardystio hawliadau a ffurflenni 19
- Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian 20
- Archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy 24

Ymarfer swyddogaethau archwilio y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol 25

# Cynnwys


Atodlen 1: Swyddogaethau penodol eraill 26

Darparu cyngor a chymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus 26

Ymarfer swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru 27

Darparu cyngor a chymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig 27

Datgelu gwybodaeth a gafwyd yn ystod astudiaeth mewn cysylltiad â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru 28

Cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol 28

Cyfranogi ar grwpiau gweithio allanol â 'statws arsylwr' 29

Cyfarwyddo'r broses o gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad llywodraeth leol 29

Paru data 29

Atodlen 2: Archwilio cyrff bach 31

Atodlen 3: Cwmpas y Cod 33

# Rhagair

1 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio sy'n rhagnodi'r ffordd y mae swyddogaethau penodol yr Archwilydd Cyffredinol i'w harfer. Mae'r Cod yn bwysig oherwydd ei fod yn nodi'r modd yr ymgymerir ag archwiliadau y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys drwy fod y cyfrwng y mae'n ofynnol cydymffurfio â safonau archwilio rhyngwladol drwyddo.

2 Mae'r Cod hwn yn disodli Cod 2020 ac mae'n dod i rym ar ddyddiad ei gyhoeddiad, sef 9 Gorffennaf 2026.

3 Wrth baratoi'r Cod newydd hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad eang, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran. Mae'r paratoad hefyd wedi ystyried y datblygiadau a'r ffactorau arwyddocaol eraill yn y cyd-destun y cynhelir archwiliadau a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys::

- a cyfyngiadau adnoddau ar draws y sector cyhoeddus
- b datblygiadau mewn technoleg, yn enwedig y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial
- c datblygu safonau archwilio rhyngwladol a Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, a
- ch newidiadau mewn deddfwriaeth.

4 Y newidiadau allweddol ers Cod 2020 yw:

- a **Cryfhau'r pwyslais ar gymesuredd** – yn yr adran ar bedair egwyddor archwilio cyhoeddus (**paragraff 17**), rydym wedi ychwanegu gofyniad ar archwilwyr i wneud defnydd da o adnoddau ac i ddilyn dull ar sail risg. Rydym hefyd wedi pwysleisio gofyniad ar archwilwyr i ddilyn dull cymesur mewn meysydd penodol eraill, megis wrth ystyried a phrosesu gohebiaeth gan y cyhoedd (**paragraffau 45 a 55(f)**, a **pharagraff 7 o Atodlen 2**).

b **Yn benodol, ei gwneud yn ofynnol i gymhwyso amheuaeth broffesiynol** – mae hwn yn ofyniad allweddol sy’n cael ei bwysleisio mewn safonau proffesiynol bellach. Mae amheuaeth broffesiynol yn sylfaenol i archwilio o ansawdd da ac mae bellach hyd yn oed yn fwy pwysig oherwydd y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial mewn cyfrifeg. Felly, mae’n briodol bod yr angen am amheuaeth broffesiynol yn cael ei adlewyrchu’n benodol yn yr egwyddorion archwilio cyhoeddus a nodir yn y Cod (**paragraff 16**).

c **Cryfhau darpariaethau sy’n ymwneud ag annibyniaeth** – yn unol â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar warchod annibyniaeth archwilio drwy gydol y Cod.

5 Ar y cyfan, mae’r newidiadau i’r Cod yn adlewyrchu datblygiadau mewn safonau proffesiynol yn ogystal ag annog dull mwy costeffeithiol.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas,
Stryd Tyndall,
Caerdydd
CF10 4BZ

E-bost: post@archwilio.cymru

Ffôn: 02920 320 500

This document is also available in English.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

# Cod Ymarfer Archwilio

## Mae'r cod hwn yn rhagnodi sut y mae'n rhaid cyflawni fy archwiliad a swyddogaethau penodol eraill

1 Fi yw archwilydd allanol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae archwiliad yn archwilio'r defnydd[1] o arian cyhoeddus ar ran y Senedd a phobl Cymru fel y gellir dwyn y llywodraeth i gyfrif.

2 Mae Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, ac amrywiaeth o ddeddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn darparu'r sail statudol ar gyfer fy ngwaith. Ceir rhagor o wybodaeth yn 'Canllawiau ar ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru'.

3 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol imi gyhoeddi cod ymarfer archwilio sy'n rhagnodi'r ffordd y mae fy swyddogaethau archwilio (a rhai swyddogaethau eraill) i'w cyflawni. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'm cod gorffori'r hyn sy'n ymddangos i mi fel arfer proffesiynol gorau. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio hwn (y Cod) wedi ei gynllunio i gyflawni'r diben hwnnw ac mae'n disodli'r Cod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020. Mae'n dod i rym ar y dyddiad pan fydd yn cael ei gyhoeddi.

4 Gallai'r swyddogaethau y mae'r Cod hwn yn ymwneud â nhw gael eu cyflawni gennyf i neu ceir eu dirprwyo i eraill[2]. Felly, mae'r term 'archwilwyr', fel y'i defnyddir yn y Cod hwn, yn cyfeirio at yr unigolion a ganlyn:

a fi, yn rhinwedd fy swydd o fod yr Archwilydd Cyffredinol

b cyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gweithio i gyflawni fy swyddogaethau archwilio

c unrhyw un arall y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei gontractio i gyflawni swyddogaethau o'r fath.

5 Rhaid i archwilwyr gymhwyso egwyddorion a gofynion y Cod hwn i'w gwaith, ac yn y broses mae'n rhaid iddynt gymhwyso eu barn broffesiynol.

1 Er byrder, cyfeiriwn at "ddefnyddio", ond dylid darllen hyn fel petai'n cynnwys pob agwedd ar stiwardiaeth, hynny yw, nid gwario yn unig, ond materion megis dal asedau hefyd.

2 O dan Ddeddf 2013, mae'n rhaid imi baratoi cynllun i ddirprwyo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, unrhyw rai o'm swyddogaethau i gyflogai Swyddfa Archwilio Cymru neu rywun sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru.

6 Mae **Atodlen 1** o'r Cod hwn yn rhagnodi'r ffordd y mae'n rhaid cyflawni swyddogaethau penodol sy'n gysylltiedig ag archwilio, a swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau archwilio. Cynhwysir rhai o'r swyddogaethau hyn oherwydd eu bod yn ofynnol o dan Ddeddf 2013, a chynhwysir rhai ohonynt oherwydd fy mod o'r farn bod cynhwysiad o'r fath yn briodol.

7 Mae **Atodlen 2** i'r Cod hwn yn rhagnodi'r ffordd y mae'n rhaid ymgymryd â'r broses o archwilio cyrff bach.

8 Mae **Atodlen 3** i'r Cod hwn yn amlinellu'r swyddogaethau y mae darpariaethau y Cod hwn yn gymwys iddynt ar sail statudol, ynghyd â'r swyddogaethau hynny yr wyf wedi dewis ei gymhwyso iddynt.

9 O bryd i'w gilydd, byddaf yn cyflwyno canllawiau atodol i archwilwyr ar gymhwyso'r Cod hwn, gan gynnwys ynghylch trefniadau ar gyfer sut y bydd cydymffurfiaeth â'r Cod hwn yn cael ei hasesu.

## Diben archwilio'r sector cyhoeddus yw adrodd ar y defnydd o arian

10 Mewn democratiaeth, mae'r llywodraeth yn atebol i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig, gan gynnwys bod yn atebol am y defnydd o arian cyhoeddus.

11 Mae angen archwiliad annibynnol o weithgareddau y llywodraeth a'r defnydd o gronfeydd cyhoeddus er mwyn hysbysu'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr i gefnogi atebolrwydd democrataidd. Mae archwilwyr allanol y sector cyhoeddus yn archwilio a yw arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu'n iawn a'i ddefnyddio'n dda. Fel gyda'r rhan fwyaf o gyfrifon a archwilir, mae archwiliad allanol o'r sector cyhoeddus yn arfer cynnwys darparu barn ar wirionedd a thegwch y cyfrifon. Fodd bynnag, mae archwiliad o'r sector cyhoeddus hefyd yn cwmpasu un neu fwy o'r canlynol fel arfer:

- a rheoleidd-dra - ystyried sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy
- b priodoldeb - a yw busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n bodloni[3] disgwyliadau seneddol a disgwyliadau y cyhoedd
- c gwerth am arian - y ddarbodaeth, yr effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd wrth ddefnyddio arian, gan gynnwys mewn cysylltiad ag amcanion polisi - neu fel arfer, o leiaf, drefniadau corff cyhoeddus i sicrhau gwerth am arian[4].

12 Ar y cyfan, nid yw cwestiynu rhinweddau polisïau y llywodraeth yn rhan o'm swyddogaethau, ond mae'n bosibl y byddaf yn archwilio'r trefniadau sy'n arwain at benderfyniadau polisi ac yn ystyried effeithiau deddfwriaeth a chanllawiau, a gweithrediad polisïau.

13 Fodd bynnag, ni all archwilio allanol weithredu yn lle cyfrifoldebau llywodraethau a chyrff cyhoeddus eraill eu hunain. Nid yw'n disodli'r angen i gyrff cyhoeddus gael cyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall nac i roi trefniadau rheoli mewnol effeithiol ar waith, gan gynnwys trefniadau ar gyfer archwilio mewnol[5]. Mater i gyrff cyhoeddus yw sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrifyddu'n iawn a'i ddefnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol[6].

3 Mae disgwyliadau seneddol yn cynnwys disgwyliadau Senedd Cymru.

4 Nid yw'r gofynion i'r archwilydd fod yn fodlon bod corff cyhoeddus wedi gwneud trefniadau priodol yn bresennol yn y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth ar gyfer archwilio llywodraeth ganolog, gan gynnwys y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau disgresiwn i archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau llywodraeth ganolog adnoddau.

5 Dylai swyddogaeth archwilio mewnol corff cyhoeddus gynnal gweithgareddau sicrwydd ac ymgynghori a gynlluniwyd i werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol y corff hwnnw.

6 I gael rhagor o wybodaeth, gweler Datganiadau o Gyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol ar ein gwefan.

# Mae pedair egwyddor sy'n tanategu fy ngwaith archwilio – ffocws ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, bod yn gymesur a bod yn atebol

14 Ynghyd â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol penodol, mae pedair egwyddor a gydnabyddir yn eang sy'n tanategu fy ngwaith archwilio. Rhaid i archwilwyr wneud eu gwaith yn gyson yn unol â'r egwyddorion hyn.

## Ffocws ar y cyhoedd

15 Cynhelir archwiliadau allanol o'r sector cyhoeddus ar ran y cyhoedd ac er budd y cyhoedd. Mae'n hanfodol dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif ac felly mae'n cynnwys ystyriaethau ychwanegol, megis rheoleidd-dra trafodiadau. Felly, mae cwmpas archwilio y sector cyhoeddus yn ehangach na'r sector preifat. Mae buddiannau y cyhoedd a'u cynrychiolwyr yn hollbwysig yn y gwaith archwilio hwn, ac felly dylid ymgysylltu â'r cyhoedd gyda'i brosesau. Rhaid i allbynnau archwilio'r sector cyhoeddus ddarparu cwmpas digonol o'r prif feysydd gwariant a risg, ac mae'n rhaid iddynt fod yn hygyrch ac yn amserol.

## Bod yn annibynnol

16 Rhaid i archwiliadau fod, ac ymddangos, yn annibynnol. Mae'n rhaid eu cynnal ag unplygrwydd ac mewn ffordd sy'n wrthrychol ac yn ddiduedd. Felly, mae'n rhaid eu cynnal yn unol â safonau ac ystyriaethau moesegol perthnasol, ac ag amheuaeth broffesiynol, gan gynnwys mewn cysylltiad â defnyddio deallusrwydd artiffisial, boed hynny gan gyrff archwiliedig neu gan archwilwyr. Rhaid i archwilwyr beidio â chael eu gorfodi gan unrhyw fuddiant penodol wrth ymgymryd â gwaith. Dylai archwilwyr adrodd yn gyhoeddus heb gael eu dylanwadu gan ofn, a heb ffafriaeth.

## Bod yn gymesur

17 Mae angen rhoi digon o le i'r llywodraeth a darparwyr gwasanaeth eraill gyflawni. Mae angen iddynt fod yn ddarostyngedig i lefelau craffu digonol, ond nid gormodol. Mae taro'r cydbwysedd hwn yn rhan bwysig o farnau archwilwyr wrth iddynt benderfynu ar natur, cwmpas, graddfa a hyd gwaith archwilio. Pan ganiateir hynny gan statud, er mwyn gwneud defnydd da o adnoddau, mae'n rhaid i archwilwyr ddilyn dull ar sail risg. Er bod yn rhaid i archwilwyr ymgymryd â thasgau penodol, gan gynnwys cael gafael ar yr wybodaeth a'r esboniadau sy'n angenrheidiol i ddarparu tystiolaeth ddigonol, ni ddisgwylir i archwilwyr adolygu'r holl agweddau ar drefniadau, systemau neu gofnodion cyrff archwiliedig. O ran cymesuredd, mae'n rhaid i archwilwyr ystyried goblygiadau ymarferol ac o ran adnoddau unrhyw argymhellion y maent yn eu datblygu o'u gwaith.

## Bod yn atebol

18 Ariennir archwilwyr sector cyhoeddus yn gyhoeddus ac maent yn atebol am stiwardiaeth yr adnoddau a ddarperir iddynt. Rhaid iddynt gyflawni eu gwaith yn unol â safonau rhyngwladol a chenedlaethol[7], pan fo hynny'n berthnasol, ac mae'n rhaid iddynt weithio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Rhaid i archwilwyr ddarparu gwybodaeth am weithgarwch archwilio yn unol â'r fframwaith cyfreithiol a moesegol, fel bod y cyhoedd a'r cyrff archwiliedig yn deall dibenion cynnal archwiliadau.

7 Sef y Safon Foesegol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ac, yn achos gwaith y tu hwnt i archwilio datganiadau ariannol, megis archwiliadau gwerth am arian, y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Sefydliadau Archwilio Goruchaf (ISSAIs)

## Mae'r Cod hwn yn rhagnodi'r ffordd y mae'n rhaid i archwilwyr gyflawni fy swyddogaethau

19 Yn ogystal â chadw at y pedair egwyddor a nodir yn y Cod hwn, rhaid i archwilwyr gydymffurfio â'r gofynion canlynol wrth gynnal eu gwaith:

a cynnal y gwaith yn unol â'r safonau ansawdd a nodaf mewn canllawiau o bryd i'w gilydd;

b cydymffurfio â'r safonau moesegol sydd mewn grym ac sy'n ymddangos imi eu bod yn berthnasol;

c ystyried blaenoriaethau fy nghynllun blynyddol a fy amcanion strategol, a chanllawiau a chyngor ychwanegol a ddarperir gennyf; ac

ch cysylltu'n effeithiol, cyn belled ag y bo'n gydnaws â safonau proffesiynol a moesegol, â rheoleiddwyr, arolygwyr ac unrhyw swyddogaethau archwilio mewnol perthnasol.

20 Hefyd, rhaid i archwilwyr:

a cynllunio a dogfennu eu gwaith, gan gynnwys sicrhau:

i bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r swyddogaeth y maent yn ei harfer;

ii bod ganddynt ddealltwriaeth gyffredinol o'r ddeddfwriaeth, y polisïau, y canllawiau a'r modelau llywodraethu sy'n berthnasol i'r cyrff y maent yn eu harchwilio;

iii dewis neu ddylunio dulliau archwilio sy'n darparu digon o dystiolaeth perthnasol a dibynadwy i ddarparu adroddiad, pan fo'r swyddogaeth sy'n cael ei harfer yn arwain at adroddiad;

b trafod y gwaith archwilio arfaethedig â'r cyrff archwiliedig perthnasol yn gynnar, pan fo hyn yn gydnaws â dibenion y gwaith - dylai trafodaeth o'r fath esbonio'r materion a'r risgiau sy'n berthnasol i'r archwiliad, a'r costau disgwyliedig[8] - fel y gall y cyrff archwiliedig hwyluso archwiliad effeithlon, er enghraifft, drwy ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn llwyr ac yn brydlon;

c sicrhau bod yr holl ddata a dderbynnir neu a geir yn cael eu cadw'n ddiogel, gan gydymffurfio â gofynion statudol a gofynion eraill sy'n ymwneud â chasglu gwybodaeth a phrosesu gwybodaeth arall;

ch hysbysu trydydd partïon y gallai gwaith y mae angen ei gynnal effeithio'n berthnasol ar eu hawliau a'u buddiannau o'r agweddau hynny sy'n debygol o effeithio arnynt i'r graddau y bo hynny'n amlwg o fewn rheswm;

8 Rhaid codi ffioedd am waith archwilio yn unol â chynllun a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a gymeradwywyd gan y Senedd. Efallai y bydd rhywfaint o waith yn cael ei ariannu gan gyflenwad (cynnig cyllideb y Senedd), sydd hefyd yn cael ei gymeradwyo gan y Senedd.

d hysbysu trydydd partïon y gallai gwaith y mae angen ei gynnal effeithio’n berthnasol ar eu hawliau a’u buddiannau o’r agweddau hynny sy’n debygol o effeithio arnynt i’r graddau y bo hynny’n amlwg o fewn rheswm;

dd adolygu cynlluniau gwaith drwy gydol yr archwiliad a’u diweddaru yn ôl yr angen;

e ceisio, pan fo hynny’n gydnaws â dibenion y gwaith a’r Safon Foesegol, cael gwybodaeth sy’n hwyluso cymariaethau perfformiad a’r broses o nodi arferion da, â’r bwriad o rannu hyn er mwyn cefnogi gwelliant mewn darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan gynnwys, er enghraifft, ansawdd y gwasanaeth;

f gwneud ymdrechion cymesur a rhesymol i ddod ag argymhellion a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio (ac adroddiadau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd) i sylw’r bobl berthnasol, er enghraifft, yn yr wybodaeth ddiweddaraf i bwyllgorau archwilio lleol neu’r hyn sy’n cyfateb iddynt; ac

ff cydymffurfio â dyletswyddau eraill sy’n berthnasol wrth arfer fy swyddogaethau, gan gynnwys cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus[9], gweithredu’n gyson â hawliau dynol[10], peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, cydymffurfio â Safonau y Gymraeg a cheisio cynnal a gwella bioamrywiaeth[11].

21 I gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, rhaid i archwilwyr:

a ymgymryd ag ymgynghoriad cymesur â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys ymgysylltu â phobl sy’n cynrychioli buddiannau pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig, ar sut i fodloni’r ddyletswydd hon wrth gynllunio a dylunio gwaith archwilio sy’n berthnasol i randdeiliaid o’r fath;

b gwneud addasiadau a lwfansau rhesymol ar gyfer anghenion pobl sy’n ymwneud â gwaith archwilio neu yr effeithir arnynt gan waith archwilio, megis pobl ag anableddau a gyflogir gan gyrff archwiliedig;

c cyhoeddi allbynnau archwilio ar ffurf ac arddull sy’n cydymffurfio â safonau hygyrchedd priodol[12];

ch adrodd ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth pan fo hynny’n berthnasol ac yn gydnaws â gwaith archwilio; ac

d cefnogi cyrff cyhoeddus eraill sy’n craffu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, pan fo cymorth o’r fath yn gydnaws â gwaith archwilio a’r Safon Foesegol.

9 Fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010: wrth arfer swyddogaethau i roi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da.

10 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd i ddiogelu hawliau yr Erthygl gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a ddaeth yn gyfraith yn y Deyrnas Unedig â Deddf Hawliau Dynol 1998.

11 Yn unol â dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

12 Yn ogystal â hynny, mae’n ofynnol cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Dyfeisiau Symudol) (Rhif 2) 2018.

22 Mae gennyf i hawliau cyfreithiol helaeth i gael mynediad at wybodaeth a dogfennau. Mae'r hawliau hynny yn bwysig ar gyfer arfer fy swyddogaethau yn briodol. Rhaid i archwilwyr ddilyn dull trylwyr o orfodi hawliau o'r fath, oherwydd bod rhwystro hawliau mynediad yn rhwystro eu gallu i gynnal gwaith archwilio yn iawn ac yn cynyddu costau y gwaith hwnnw.

23 Er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth bosibl, pan fo'n ymddangos bod hawliau mynediad yn cael eu rhwystro, rhaid i archwilwyr roi gwybod i'r person dan sylw am yr hawliau perthnasol. Os yw'r person yn dal i geisio rhwystro mynediad yn dilyn y cyfathrebiad hwn, rhaid i archwilwyr, pan fyddaf o'r farn bod hynny'n briodol, fynd ar drywydd camau cyfreithiol i gael mynediad at y dogfennau perthnasol ac adennill unrhyw gostau cysylltiedig.

24 Mae'n ofynnol imi adrodd i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol[13] unrhyw enghreifftiau neu amheuon o ymdrin ag enillion troseddau neu ariannu terfysgaeth (gwyngalchu arian) a geir yn ystod ein gwaith. Er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon, rhaid i archwilwyr, drwy gydol eu gwaith, gadw meddwl agored ynghylch y posibilrwydd y bydd pobl yn ymdrin ag enillion troseddau ac adrodd unrhyw wybodaeth neu amheuaeth i Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian Archwilio Cymru. Rhaid i archwilwyr sicrhau hefyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion adrodd penodol eraill[14].

13 O dan Reoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgaeth a Throsglwyddo Cronfeydd (Gwybodaeth am y Talwr) 2017.

14 Megis y rhai sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011.

# Gofynion mewn cysylltiad â swyddogaethau penodol

## Boddhad o ran trefniadau i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol

25 Pan fo'n ofynnol imi fod yn fodlon bod corff wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ('gwerth am arian') yn ei ddefnydd o adnoddau, er mwyn fy ngalluogi i ddod i gasgliad ar foddhad o'r fath, rhaid i archwilwyr ddatblygu rhaglen gwaith blynyddol at y diben hwnnw ym mhob corff. Rhaid i'r rhaglen fod yn gymesur ac yn seiliedig ar asesiad o'r risgiau nad yw'r corff yn gwneud trefniadau priodol, gyda'r gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd risg mwyaf.

26 Rhaid i'r rhaglen gynnwys adolygiad o ddyluniad trefniadau sylweddol i sicrhau gwerth am arian, a, phan fo hynny'n briodol o ystyried asesiad o'r risg, mae'n rhaid profi effeithiolrwydd gweithredol y trefniadau hynny. Oherwydd y posibilrwydd bod profion un flwyddyn o berthnasedd parhaus o ran asesu risgiau a gwaith adolygu arall, gallai dyfnder y cwmpas amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall.

27 Wrth ddylunio'r rhaglen, rhaid i archwilwyr ystyried trefniadau corfforaethol yn ogystal â threfniadau lefel gwasanaeth, gan gynnwys cynllunio strategol, cynllunio ariannol, rheoli perfformiad a risg, cynllunio'r gweithlu, rheoli asedau, gweithio cydweithredol a llywodraethu cyffredinol.

28 Wrth adolygu trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, rhaid i archwilwyr roi sylw arbennig i arferion llywodraethu a rheoli da, ac mae'n rhaid i archwilwyr ddilyn unrhyw ganllawiau ychwanegol y gallaf eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.

29 I’r graddau y maent yn berthnasol i drefniadau sicrhau gwerth am arian, rhaid i archwilwyr roi sylw i’r canlynol::

a canlyniadau y gwaith archwilio a gynhelir ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys gwaith cysylltiedig, megis adolygiad o’r datganiad llywodraethu blynyddol a gohebiaeth ynghylch y corff archwiliedig;

b canlyniadau gwaith arall a gynhelir gennyf, gan gynnwys archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy (o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015), ardystio hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;

c canlyniadau gwaith cyrff archwilio mewnol ac adolygu allanol pan fo hynny’n briodol;

ch canfyddiadau fy ngwaith yn y blynyddoedd blaenorol pan fo hynny’n parhau i fod yn berthnasol; ac

d unrhyw waith arall sy’n ymdrin â materion na chwmpesir uchod, ac y mae archwilwyr o’r farn ei fod yn angenrheidiol fel y gallaf gyflawni fy nyletswyddau.

30 Pan fo hynny’n gydnaws â gofynion statudol a phroffesiynol, wrth ymgymryd â gwaith i archwilio trefniadau, byddaf yn ceisio ei integreiddio â gwaith arall o’r mathau a restrir uchod.

31 Dylai gwaith archwilwyr gael ei gynllunio â’r nod o ddarparu digon o sicrwydd i’m galluogi i fodloni fy hun ym mhob agwedd arwyddocaol, pan fo hynny’n berthnasol, fod cyrff wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

32 Yn seiliedig ar y gwaith a wneir, byddaf yn adrodd fy nghasgliadau ar bob corff bob blwyddyn, gydag adroddiadau sylweddol ar wahân pan fo materion nodedig. Wrth wneud adroddiad sylweddol, mae gofynion **paragraffau 57 a 58** o’r Cod hwn yn berthnasol i adroddiad o’r fath.

## Archwilio cyfrifon

33 Mae adroddiadau archwilio ar gyfrifon yn cynnwys barn ar:

a a yw’r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a theg ar faterion ariannol y corff[15];

b a yw’r datganiadau ariannol wedi eu paratoi’n iawn yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu perthnasol; ac

c rheoleidd-dra (gweler **paragraffau 37 a 38**) trafodiadau y cyrff sy’n ddarostyngedig i graffu gan y Senedd yn rhinwedd gosod eu cyfrifon (neu gyfrifon eu rhiant gorff) gerbron y Senedd.

34 Ac eithrio cyrff a gwmpesir gan **Atodlen 2** i’r Cod hwn, wrth gyflawni gwaith ar fy rhan, rhaid i archwilwyr gydymffurfio â’r safonau moesegol ac archwilio sydd mewn grym[16], fel y hysbysir gennyf mewn canllawiau fel yr ymddengys imi eu bod yn berthnasol. Rhaid i archwilwyr roi sylw hefyd i ganllawiau a chyngor cysylltiedig a gyhoeddwyd gennyf, neu ar fy rhan.

35 Ac eithrio cyrff a gwmpesir gan **Atodlen 2** i’r Cod hwn, rhaid i archwilwyr ymgymryd â’u gwaith fel y gallaf ddarparu sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol cysylltiedig:

a yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed drwy dwyll neu wall;

b cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill, gan gynnwys rheoleidd-dra trafodiadau mewn cyrff lle mae hyn yn ofynnol; ac

c bodloni’r holl ofynion cyflwyno a datgelu cyfrifyddol perthnasol.

36 Ar gyfer cyrff a gwmpesir gan **Atodlen 2** i’r Cod hwn, rhaid i archwilwyr ymgymryd â’u gwaith yn unol â’r Atodlen honno.

15 Ar gyfer cyfrifon derbyniadau a thaliadau, megis Cronfa Gyfunol Cymru, y farn yw a yw’r cyfrifon yn cyflwyno’r derbyniadau a’r taliadau yn iawn.

16 Gan gynnwys Safonau Rhyngwladol ar Archwilio a safonau eraill a gydnabyddir yn rhyngwladol.

37 Pan fo cyrff yn ddarostyngedig i graffu gan y Senedd yn rhinwedd gosod eu cyfrifon (neu gyfrifon eu rhiant gorff) gerbron y Senedd, rhaid i archwilwyr ddylunio ac ymgymryd â gwaith archwilio ar fy rhan er mwyn mynd i'r afael â rheoleidd-dra a chaniatáu imi roi barn ar reoleidd-dra y trafodiadau y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw. Rheoleidd-dra, fel y nodir yn 'Nodyn Ymarfer 10: Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig' a gyhoeddwyd gan y Fforwm Archwilio Cyhoeddus ac a gymeradwywyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, yw'r cysyniad bod yn rhaid i drafodiadau a adlewyrchir yn natganiadau ariannol endid archwiliedig fod yn unol â'r fframwaith perthnasol o awdurdodau. Mae fframweithiau o'r fath yn cynnwys:

a awdurdodi deddfwriaeth;

b awdurdodau y Senedd, megis cynigion cyllideb a basiwyd gan y Senedd; ac

c awdurdodau gweinyddol, megis dirprwyaethau, a chanllawiau, megis cyhoeddiad 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' Llywodraeth Cymru.

38 Mae darparu barn ar reoleidd-dra yn bwysig o ran rheoli cyllid cyhoeddus yn ddemocrataidd. Un o swyddogaethau allweddol y Senedd yw cymeradwyo, ar ôl craffu, gynigion cyllideb i awdurdodi Llywodraeth Cymru a chyrff eraill i ddefnyddio adnoddau cyhoeddus. Er mwyn cwblhau'r cylch rheoli, mae angen i'r Senedd gael adroddiadau ynghylch a yw'r adnoddau y mae wedi penderfynu arnynt wedi eu defnyddio yn unol â'i bwriadau. Felly, mae'n rhaid i'r farn a ddarperir ar reoleidd-dra trafodiadau (y farn ar reoleidd-dra) gael ei chefnogi gan waith digonol i ddod i gasgliad ynghylch a yw'r trafodiadau yn unol â'r fframwaith perthnasol o awdurdodau.

39 Rhaid i gynlluniau a chanlyniadau gwaith archwilio a gynhelir ar y datganiadau ariannol gael eu hadrodd drwy allbynnau priodol, megis:

a dogfen cynllunio archwiliad;

b adroddiadau llafar ac ysgrifenedig neu memoranda i unigolion priodol ar ganlyniadau, neu faterion sy'n deillio o, agweddau penodol ar y gwaith;

c adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n crynhoi fy nghanfyddiadau a fy nghasgliadau;

ch adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn(au) ar y datganiadau;

d ardystiad bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi ei gwblhau yn unol â gofynion statudol; ac

dd adroddiad sylweddol cysylltiedig os wyf yn amodi fy marn archwilio[17] neu os hoffwn adrodd ar unrhyw fater.

17 Yn hytrach na barn ddiamod, a fynegir pan fo'r archwilydd yn dod i'r casgliad bod y datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a theg, yn cael eu cyflwyno'n iawn neu'n deg (fel y bo'n briodol), ym mhob agwedd berthnasol ac yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

40 Rhaid i archwilwyr arfer swyddogaethau archwilio er mwyn galluogi mater allbynnau ychwanegol yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, megis:

a adroddiadau a wneir er budd y cyhoedd;

b datganiadau sy'n rhoi rhesymau yn dilyn gwrthwynebiadau a godwyd gan etholwyr awdurdod lleol; ac

c sylwadau ar sail eithriad pan fo unrhyw ran o'r wybodaeth a adolygir yn nodi methiannau sylweddol i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu i weithredu'n gydnaws â hawliau dynol.

41 Rhaid i archwilwyr weithio i'm cynorthwyo yn fy nyletswydd i ystyried a ddylid cyhoeddi adroddiadau budd y cyhoedd i dynnu sylw'r cyhoedd at amgylchiadau lle, yn fy marn i, mae corff cyhoeddus wedi camwario symiau sylweddol o arian, yn meddu ar drefniadau llywodraethu gwael neu wedi gweithredu y tu allan i'w bwerau a'i ddyletswyddau.

42 Wrth wneud adroddiad sylweddol ar gyfrifon a archwilir, neu er budd y cyhoedd am unrhyw reswm, mae gofynion **paragraffau 57 a 58** o'r Cod hwn yn gymwys.

## Arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau wrth archwilio cyrff llywodraeth lleol

43 Wrth archwilio cyrff llywodraeth lleol, mae gennyf y swyddogaethau ychwanegol canlynol:

a y ddyletswydd i roi cyfle i etholwyr llywodraeth leol godi cwestiynau am y cyfrifon;

b y ddyletswydd i ystyried a phenderfynu ar wrthwynebiadau a dderbynnir mewn cysylltiad â'r cyfrifon;

c y pŵer i wneud cais i'r llys am ddatganiad bod eitem o'r cyfrifon yn groes i'r gyfraith;

ch y pŵer i ystyried a ddylid cyhoeddi, ac a yw'n briodol cyhoeddi, hysbysiad cynghori neu wneud cais am adolygiad barnwrol; ac

d y ddyletswydd i ystyried a ddylid adrodd materion er budd y cyhoedd.

44 Rhaid bod yn arbennig o ofalus i sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu harfer yn gymesur, fel sy'n ofynnol gan baragraff 17, yn ogystal â mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol. Dylai archwilwyr ystyried arwyddocâd y materion a godir yng nghyd-destun y symiau dan sylw a maint y corff archwiliedig dan sylw er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn gymesur ac er budd y cyhoedd. Rhaid i ystyriaeth o'r fath ystyried y canllawiau a gyhoeddaf o bryd i'w gilydd, gan gynnwys gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch hawliau mewn cysylltiad â chyfrifon llywodraeth leol, megis taflen **Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau**.

## Gohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb

45 Ar draws yr amrywiaeth lawn o gyrff archwiliedig, gallai aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb ysgrifennu at yr archwilydd i godi pryderon. Gall gohebiaeth o'r fath lywio ein gwaith, er enghraifft, drwy nodi materion ar gyfer ymchwiliad ychwanegol. Fel gyda'r swyddogaethau penodol mewn cysylltiad â llywodraeth leol y sonnir amdanynt ym mharagraff 43, rhaid i archwilwyr roi ystyriaeth gymesur i faterion perthnasol sy'n peri pryder i'r cyhoedd mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol. Rhaid i ystyriaeth o'r fath ystyried y polisïau a'r canllawiau y byddaf yn eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd, gan gynnwys gwybodaeth i'r cyhoedd, megis taflen **Ysgrifennu at Archwilio Cymru**.

## Ardystio hawliadau a ffurflenni

46 Os yw gwneud hynny yn ofynnol gan gorff perthnasol[18], mae'n rhaid imi wneud trefniadau i ardystio:

a hawliadau neu ffurflenni grantiau, cymorthdaliadau neu daliadau contract a dderbynnir gan lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus;

b ffurflenni ar gyfer cyfraniadau ardrethu annomestig; ac

c unrhyw ffurflen arall y mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol imi wneud trefniadau ar ei chyfer (er enghraifft, cyfraniadau pensiwn).

47 Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, rhaid i archwilwyr ddarparu un o'r allbynnau canlynol, neu'r ddau ohonynt:

a tystysgrif sy'n nodi eu casgliad er mwyn darparu lefel gymesur o sicrwydd bod hawliadau a ffurflenni grant wedi eu datgan yn deg ac yn unol â thelerau ac amodau penodol; neu

b adroddiad naratif o'u canfyddiadau ar ôl cyflawni set o weithdrefnau y cytunwyd arnynt â'r corff sy'n talu grantiau.

48 Efallai nad ardystiad yw'r ffordd mwyaf effeithiol o ddarparu sicrwydd. Felly, mae'n rhaid i archwilwyr hysbysu cyrff sy'n talu grantiau na ddylid gwneud ardystiad yn ofynnol oni bai bod cyfiawnhad clir dros wneud hynny[19], yn hytrach nag fel mater o drefn. Efallai y byddaf yn rhoi cyngor i gyrff sy'n talu grantiau sy'n ceisio ardystiad ar y dull mwyaf effeithiol o gael sicrwydd.

18 Diffinnir 'cyrff perthnasol' ym mharagraff 20 o **Atodlen 8** i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; yn y bôn, mae'r term yn golygu cyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

19 Mae gwerth cyffredinol a thelerau ac amodau y cynllun, y lefel a'r mathau o risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y prosiect a chostau tebygol gwaith yr archwilwyr ymhlith y ffactorau allweddol y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a oes cyfiawnhad dros ardystio.

49 Pan fo cyrff sy'n talu grantiau wedi penderfynu gofyn am ardystiad, rhaid i archwilwyr arfer disgresiwn o ran y ffordd mwyaf priodol o gyflawni eu rhwymedigaethau, ar ôl ystyried:

a amgylchiadau penodol cynllun a'r symiau dan sylw;

b lefel y sicrwydd a geisir a'r ffynonellau amgen posibl o sicrwydd sydd ar gael;

c cadernid y meini prawf ariannol a darparu gwasanaethau y mae angen eu cymhwyso; ac

ch natur neu raddfa y gwaith sy'n angenrheidiol.

50 Wrth ymgymryd â gwaith ardystio, rhaid i archwilwyr ddilyn gofynion y Cyfarwyddyd Ardystio y cytunwyd arnynt â'r corff sy'n talu grantiau. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, rhaid i archwilwyr integreiddio eu gweithgareddau ardystio â'u harchwiliad o gyfrifon a'u gwaith archwilio ac astudio gwerth am arian.

51 Rhaid i archwilwyr ystyried hefyd a yw unrhyw ran o'r wybodaeth a adolygwyd wrth ymgymryd â gwaith ardystio yn dangos methiannau sylweddol i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu i ddiogelu hawliau dynol ar ran cyrff gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid i archwilwyr roi sylwadau ar hyn, pan fo hynny'n briodol, ar sail eithriad.

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian

52 Mewn cysylltiad â'm swyddogaethau archwilio ac astudio gwerth am arian, rhaid i archwilwyr ystyried, ymhlith pethau eraill, y canlynol wrth benderfynu pa waith i'w wneud:

a budd y cyhoedd;

b safbwyntiau y cyhoedd a'i gynrychiolwyr[20] pan fyddant ar gael ac yn berthnasol;

c graddfa y materion a'r amgylchiadau a'r risgiau dan sylw

ch a fyddai'r gwaith yn amserol;

d a fyddai'r gwaith yn gymesur ac yn darparu gwerth am arian - a yw'r buddion yn debygol o gyfiawnhau y gost, gan gynnwys gwerth posibl y gwaith o ran arbedion ariannol, gwell gwasanaethau a gwell rheolaeth neu lywodraethu, atal ac a yw gwersi yn debygol o fod yn drosglwyddadwy;

dd a oes cyfle priodol i gyflawni neu gefnogi'r broses o arfer dyletswyddau yr Archwilydd Cyffredinol, megis archwiliadau datblygu cynaliadwy a boddhad bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian;

20 Gan gynnwys yn benodol safbwyntiau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd a llywodraeth leol, pan fo hynny'n berthnasol.

e a oes cyfle priodol i gyflawni dyletswyddau eraill megis dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r ddyletswydd bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau yr Archwilydd Cyffredinol, (gweler **paragraff 20(h))**; ac

f a fyddai archwilio'r broses o gyflawni dyletswyddau ychwanegol o'r fath sy'n berthnasol i gyrff archwiliedig wrth iddynt arfer swyddogaethau yn ychwanegu gwerth (fel (g) ond hefyd, er enghraifft, dyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010).

53 Ar gyfer unrhyw archwiliad neu astudiaeth benodol, rhaid i archwilwyr ddefnyddio'r dull a ragnodir yn y paragraffau canlynol (54-55) i ddatblygu dulliau gwaith maes sy'n eu galluogi i benderfynu i ba raddau y mae gwerth am arian wedi ei gyflawni neu a ellid ei wella, neu i ddarparu sylwebaeth ddefnyddiol ar y trefniadau sicrhau gwerth am arian. Fel arall, yn achos astudiaethau nad ydynt yn ymwneud â gwerth am arian, rhaid iddynt ddefnyddio'r dull a ragnodir i gynnal dadansoddiad o'r fath fel y bo'n addas i'r diben. Pan fo hynny'n berthnasol, bydd hyn yn ymestyn i archwilio trefniadau llywodraethu, gan gynnwys unrhyw bartneriaethau darparu gwasanaethau, is-gyrff, contractau a threfniadau gweithio cydweithredol.

54 Rhaid i archwilwyr wneud ymdrechion cymesur i geisio ac ystyried safbwyntiau pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig[21], yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, wrth benderfynu pa archwiliadau ac astudiaethau i'w cynnal. Wrth benderfynu ar unrhyw archwiliadau ac astudiaethau sy'n berthnasol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac wrth ddyfeisio gwaith maes ar gyfer prosiectau o'r fath, mae'n rhaid i archwilwyr geisio safbwyntiau pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl o'r fath, er mwyn ystyried eu hanghenion.

21 Fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

55 Yn amodol ar safonau a chanllawiau proffesiynol a moesegol a darperir gennyf[22], mae'n rhaid i archwilwyr geisio cyflawni'r canlynol wrth gynnal archwiliadau gwerth am arian ac astudiaethau eraill:

a gweithio'n effeithlon i gynyddu gymaint â phosibl y defnydd o adnoddau, lleihau dyblygu gwaith a lleihau'r galw ar gyrff archwiliedig drwy, er enghraifft, rannu gwybodaeth berthnasol yn fewnol yn Archwilio Cymru ac â chontractwyr a allai gael effaith neu arwyddocâd ar waith archwilio arall a wneir gennyf neu lywio fy rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

b rhannu gwybodaeth berthnasol â chyrff adolygu allanol;

c Helpu cyrff a gwasanaethau cyhoeddus i ddysgu oddi wrth ei gilydd drwy nodi cyfleoedd i rannu dysg ag:

i archwilwyr;

ii swyddogaethau archwilio mewnol cyrff archwiliedig;

iii trefniadau hunanwerthuso cyrff archwiliedig; ac

iv ivcyrff adolygu allanol eraill.

ch helpu cyrff a gwasanaethau cyhoeddus i ddysgu oddi wrth ei gilydd drwy nodi cyfleoedd i rannu dysg ag:

i cyfnewidfa arfer da Archwilio Cymru;

ii cyrff adolygu allanol perthnasol; ac

iii buddiolwyr perthnasol eraill.

d pan fo hynny'n briodol, yn berthnasol, yn ddefnyddiol ac yn werth da am arian ynddo ei hun, yn darparu mewnwelediad o waith archwilio i wneuthurwyr polisïau a gweithgorau y sector cyhoeddus.

dd yn ystod archwiliad, rhoi sylw cymesur i ohebiaeth (gweler **paragraff 45**) a dderbyniwyd gan y cyhoedd neu bartïon eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys datgeliadau a dderbynnir gan gyflogeion[23], am faterion sy'n berthnasol i'm swyddogaethau;

e yn ystod archwiliad archwilio, cyfathrebu â chyrff archwiliedig a thrydydd partïon perthnasol ynghylch y gwaith archwilio ar lefel briodol ac mewn modd amserol; ac

f yn ogystal â gofynion **paragraff 20**, cyflawni gwaith cwmpasu cychwynnol cymesur er mwyn gwirio rhesymolrwydd cynnal archwiliad neu astudiaeth lawn, a phan fo hyn yn wir, dylunio dulliau gwaith maes i fodloni'r gofynion isod.

22 Gan gynnwys "Llawlyfr Cyflawni Archwiliad Perfformiad"

23 O dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998), mae'r Archwilydd Cyffredinol yn berson rhagnodedig a all dderbyn datgeliadau chwythu'r chwiban gan unrhyw gyflogeion mewn cysylltiad â chynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian a thwyll a llygredd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

56 Wrth gynnal a chofnodi canlyniadau gwaith maes, mae'n rhaid i archwilwyr:

a ymgymryd â'r broses o gasglu tystiolaeth perthnasol digonol fel y gellir dod i gasgliadau dibynadwy;

b ceisio cyngor arbenigol digonol wrth archwilio materion nad ydynt yn arbenigwyr arnynt; ac

c adolygu a yw cyrff archwiliedig wedi ystyried yn iawn faterion perthnasol arwyddocaol a nodwyd yn flaenorol gan gyrff archwilio a chyrff adolygu allanol eraill, ac a yw'r camau gweithredu a argymhellwyd wedi eu gweithredu.

57 Ar ôl cwblhau gwaith maes, mae'n rhaid i archwilwyr:

a dod i gasgliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'u gwaith maes, neu, os yw'n gydnaws â'r swyddogaeth y gwnaed y gwaith oddi tani, cyflwyno canfyddiadau ffeithiol;

b Ystyried a yw eu casgliadau'n gadarn, megis drwy ystyried a ydynt yn gyson â'r rhai sy'n deillio o waith archwilio mewnol neu gyrff adolygu allanol eraill;

c pennu'r negeseuon allweddol a strwythur yr allbynnau y byddant yn cael eu hadrodd drwyddynt;

ch rhoi cyfle teg i gyrff archwiliedig a thrydydd partïon perthnasol wneud sylwadau, yn enwedig i ateb unrhyw feirniadaeth ac i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y canfyddiadau – rhaid rhoi amser digonol i bartïon perthnasol gan ystyried swm y deunydd a gyflwynir a phwysigrwydd y materion i'w buddiannau – pan fo'r gofyniad i ddarparu amser digonol i ymateb yn gwrthdaro â therfynau amser gweinyddol neu statudol, mae'r gofyniad i ddarparu amser digonol yn drech;

d argymell gwelliannau, pan fo hynny'n berthnasol, sydd, ym marn yr archwilydd, yn ddefnyddiol, yn benodol ac yn ymarferol, er budd y cyhoedd, yn gyson â datblygu cynaliadwy a'r egwyddor datblygu cynaliadwy[24], ac sy'n ystyried costau a heriau disgwyliedig gweithredu; ac

dd cynhyrchu allbynnau sy'n hygyrch ac wedi eu hysgrifennu mewn iaith blaen, yn agored am gwmpas a therfynau y gwaith, a chyfeirio at enghreifftiau o welliannau nodedig ac arferion da, fel y bo'n briodol.

24 Fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

58 Ar ôl adrodd canfyddiadau ac argymhellion, mae’n rhaid i archwilwyr:

a gofyn am ymateb gan gyrff archwiliedig a phartïon perthnasol i’r canfyddiadau a’r argymhellion hynny, a datgan mewn cyflwyniadau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd neu bwyllgor archwilio lleol a ydynt yn fodlon bod canfyddiadau ac argymhellion wedi eu hystyried yn iawn[25];

b monitro’r camau a gymerir mewn ymateb i’r argymhellion;

c gwneud sylwadau, fel y bo’n angenrheidiol ac yn briodol, ar y cynnydd o ran gweithredu argymhellion, gan gynnwys mewn cysylltiad â’r rhai nad ydynt wedi eu hystyried na’u gweithredu’n iawn; ac

ch cychwyn gwaith ychwanegol sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau statudol neu i gynllunio i arfer pwerau yn ôl disgresiwn yn briodol.

## Archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy

59 Mae Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol imi archwilio cyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a gosod amcanion llesiant; ac

b cymryd camau i gyflawni’r amcanion hynny.

60 Rhaid imi gynnal archwiliad o’r fath ar bob corff cyhoeddus rhagnodedig o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod adrodd a bennir gan Ddeddf 2015[26]. Cyn diwedd y cyfnod, mae’n rhaid imi adrodd ar ganlyniadau yr archwiliadau hynny i’r Senedd.

61 Wrth gynnal archwiliad o’r fath, byddaf yn ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd). Byddaf hefyd yn ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddir i’r corff cyhoeddus, neu unrhyw adolygiad o’r corff ac argymhellion a roddir i’r corff, gan y Comisiynydd.

25 Y corff archwiliedig yn unig sy’n gyfrifol am weithredu argymhellion, a’r dulliau y gwneir hyn drwyddynt.

26 Mae’r cyfnod adrodd yn dechrau ar y dyddiad sydd un flwyddyn cyn y dyddiad y mae etholiad cyffredinol arferol i’w gynnal o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae’n dod i ben ar y dyddiad sydd un diwrnod ac un flwyddyn cyn y dyddiad y mae’r etholiad nesaf o’r fath i’w gynnal. O fis Mai 2026, pedair blynedd yw’r cyfnod hwn.

62 Pan fo hynny'n gydnaws â gofynion statudol a phroffesiynol, wrth gynnal yr archwiliadau hyn, byddaf yn ceisio eu hintegreiddio ag astudiaethau a gwaith gwerth am arian i fod yn fodlon ar y trefniadau sicrhau gwerth am arian. Felly, yn yr achosion hyn, bydd gofynion perthnasol y Cod hwn hefyd yn berthnasol.

63 Pan fyddant yn cael eu cynnal fel archwiliadau annibynnol, mae gofynion y Cod hwn yn berthnasol i archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy fel pe baent yn archwiliad neu'n astudiaeth gwerth am arian.

## Ymarfer swyddogaethau archwilio y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol

64 Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau archwilio Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU i Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu fod yn Archwilydd Cyffredinol ar gyfer swyddogaethau Cymru (gan barhau hefyd i fod yn swyddogaethau y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol).

65 Wrth arfer swyddogaethau archwilio o'r fath, mae'n rhaid i archwilwyr gyflawni eu gwaith yn unol â'r gofynion perthnasol a nodir yn y Cod hwn.

# Atodlen 1: Swyddogaethau penodol eraill

## Darparu cyngor a chymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

1 Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd (y Pwyllgor) yn ystyried yr adroddiadau yr wyf yn eu paratoi ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar y ddarbodaeth, yr effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni swyddogaethau. Yna caiff y Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiadau ei hun ar y materion yr wyf yn adrodd arnynt ac yn gosod yr adroddiadau hynny gerbron y Senedd[27]. Yn ôl confensiwn, mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiadau y Pwyllgor i ddweud a yw'n derbyn yr argymhellion ai peidio ac, os ydynt yn cael eu derbyn, sut y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu.

2 Efallai y bydd y Pwyllgor yn gofyn i staff Swyddfa Archwilio Cymru a mi am gymorth proffesiynol, technegol a gweinyddol. Yn benodol, caiff y Pwyllgor ofyn am fy nghyngor ar ddigonolrwydd ymateb Llywodraeth Cymru i'm hargymhellion neu eu hargymhellion eu hunain, ond caiff ceisio cyngor a chymorth hefyd ar faterion proffesiynol, technegol a gweinyddol eraill, gan gynnwys materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith archwilio. Wrth ddarparu cyngor neu gymorth, rhaid i archwilwyr sicrhau nad yw annibyniaeth yn cael ei chyfaddawdu, neu ei hystyried fel petai'n cael ei chyfaddawdu.

3 Fel y nodir ym mharagraff 20 (g) o'r Côd, pan fo adroddiadau Pwyllgor yn cynnwys argymhellion ar gyfer cyrff archwiliedig, rhaid i archwilwyr ddod â'r argymhellion hynny i sylw pobl berthnasol, er enghraifft, mewn diweddariadau i bwyllgorau archwilio lleol neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt.

4 Efallai y bydd pwyllgorau eraill y Senedd hefyd yn gofyn imi am gymorth proffesiynol, technegol a gweinyddol, gan gynnwys fy nghyngor ar ddigonolrwydd ymateb Llywodraeth Cymru i'm hargymhellion neu eu hargymhellion eu hunain. Unwaith eto, wrth ddarparu cyngor neu gymorth o'r fath, rhaid i archwilwyr sicrhau nad yw annibyniaeth yn cael ei chyfaddawdu, neu ei hystyried fel petai'n cael ei chyfaddawdu.

27 I gael rhagor o wybodaeth, gweler Rheolau Sefydlog y Senedd.

## Ymarfer swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru

5 Caiff Gweinidogion Cymru, gyda fy nghydsyniad i ac ar ôl ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru, wneud darpariaeth fel bod unrhyw un o'u swyddogaethau goruchwylio cyrff cyhoeddus yn cael eu harfer ar eu rhan gennyf fi, neu'n cael eu trosglwyddo ataf fi. Swyddogaethau archwilio, arolygu, adolygu neu astudio trefniadau ariannol neu drefniadau rheoli eraill neu'r ffyrdd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau yw swyddogaethau goruchwylio.

6 Wrth arfer swyddogaethau goruchwylio o'r fath, rhaid i archwilwyr gynnal eu gwaith yn unol ag egwyddorion ffocws ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, bod yn gymesur ac yn atebol, safonau moesegol ac i'r graddau y maent berthnasol, safonau proffesiynol. Rhaid i archwilwyr gadw at yr egwyddorion a nodir yn y Cod hwn ar gyfer cynllunio, cyflawni, adrodd a dilyn eu gwaith.

7 Mae'r statud yn nodi, os caf gyfarwyddyd i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, fod yn rhaid imi baratoi adroddiad ar arfer unrhyw swyddogaeth oruchwylio a drosglwyddir a gosod yr adroddiad gerbron y Senedd. Unwaith eto, mae'n rhaid gwneud adroddiadau o'r fath yn unol â'r Cod hwn.

## Darparu cyngor a chymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

8 Pan gredaf fod hynny'n briodol, caf[28] ddarparu cyngor neu gymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru fel y gall arfer ei swyddogaethau.

9 Wrth ystyried a yw'n briodol darparu cyngor neu gymorth o'r fath ac, os yw'n berthnasol, wrth ddarparu cyngor neu gymorth o'r fath, mae'n rhaid i archwilwyr ystyried a yw'n gydnaws â safonau proffesiynol a moesegol, yn enwedig yr angen i ddiogelu annibyniaeth archwilio. Hefyd, mae'n rhaid i archwilwyr roi sylw i ddymunoldeb gwneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus, gan gynnwys arbenigedd archwilio.

28 O dan adran 145D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

## Datgelu gwybodaeth a geir yn ystod astudiaeth mewn cysylltiad â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru

10 Caf[29] ddatgelu gwybodaeth a geir gan archwilwyr i Weinidogion Cymru yn ystod astudiaeth mewn cysylltiad â landlord cymdeithasol cofrestredig. Er mwyn helpu Gweinidogion Cymru i fod yn rheoleiddwyr effeithlon ac effeithiol, mae'n rhaid i archwilwyr ystyried pa mor berthnasol i swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru yw'r wybodaeth am landlordiaid cymdeithasol cofrestredig y maent yn ei chael yn ystod astudiaethau.

11 Pan fo archwilwyr yn nodi gwybodaeth berthnasol, mae'n rhaid iddynt ei rhannu â Swyddog Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru fel y cânt eu trosglwyddo i'r swyddogion Llywodraeth Cymru perthnasol, yn amodol ar ystyriaethau diogelu data a hawliau dynol, a safonau proffesiynol a moesegol. Rhaid i archwilwyr gadw cofnodion o achosion o rannu gwybodaeth o'r fath. Ac eithrio pan fyddai'n niweidiol neu'n debygol o fod yn niweidiol i swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru, mae'n rhaid i archwilwyr roi gwybod hefyd i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig perthnasol am yr wybodaeth sydd i'w rhannu, gan wirio ei chywirdeb gyda nhw cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol.

## Cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol

12 Caf[30] gyfeirio unrhyw fater sy'n deillio o archwiliad neu astudiaeth llywodraeth leol at yr Ysgrifennydd Gwladol os yw'n ymddangos y gallai'r mater fod yn berthnasol at ddibenion unrhyw un o swyddogaethau nawdd cymdeithasol yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid i archwilwyr sy'n ymgymryd â gwaith llywodraeth leol ystyried pa mor berthnasol i swyddogaethau nawdd cymdeithasol yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r wybodaeth y maent yn ei chael yn ystod y gwaith hwnnw.

13 Pan fo archwilwyr yn nodi gwybodaeth berthnasol, mae'n rhaid iddynt ei rhannu â Swyddog Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru fel y cânt eu trosglwyddo i swyddogion perthnasol Llywodraeth y DU, yn amodol ar ystyriaethau diogelu data a hawliau dynol, a safonau proffesiynol a moesegol. Rhaid i archwilwyr gadw cofnodion o achosion o rannu gwybodaeth o'r fath. Ac eithrio pan fyddai'n niweidiol neu'n debygol o fod yn niweidiol i swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol, dylai archwilwyr roi gwybod hefyd i'r cyrff llywodraeth lleol perthnasol am yr wybodaeth sydd i'w rhannu, gan wirio ei chywirdeb gyda nhw i'r graddau y mae hynny'n rhesymol yn ymarferol.

29 O dan adran 145C(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'r ffaith mai Gweinidogion Cymru yw rheoleiddwyr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

30 O dan adran 51 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004; mae'r ddarpariaeth hon yn helpu fy ngwaith i'w ddefnyddio er budd swyddogaethau nawdd cymdeithasol

## Cyfranogi ar grwpiau gweithio allanol â 'statws arsylwr'

14 Gofynnir imi yn aml ddarparu cynrychiolaeth i weithgorau allanol a sefydlwyd gan gyrff archwiliedig. Rhaid i archwilwyr sy'n fy nghynrychioli ar weithgorau o'r fath weithredu fel arsylwyr yn unig. Ni chânt fod yn aelod o grwpiau o'r fath. Cânt geisio cynorthwyo mewn trafodaethau drwy dynnu sylw at ganfyddiadau archwilio, ond mae'n rhaid iddynt beidio â bod yn rhan o benderfynu ar bolisi na gweithredu polisi sy'n deillio o weithgareddau y grŵp.

15 Rhaid i archwilwyr sicrhau nad yw eu cyfranogiad fel arsylwyr mewn gweithgorau yn fy rhwystro mewn unrhyw ffordd wrth imi gynnal fy swyddogaethau archwilio amrywiol. Hefyd, mae'n rhaid i archwilwyr wneud y gofyniad hwn yn hysbys i unrhyw weithgor y maent yn bresennol ynddo.

## Cyfarwyddo'r broses o gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad llywodraeth leol

16 Rhaid i mi[31] roi cyfarwyddiadau yn ôl fy meddwl i gyrff llywodraeth leol i gyhoeddi gwybodaeth a allai hwyluso gwneud cymariaethau perfformiad.

17 Yn ogystal â gofynion statudol, megis ymgynghori â chymdeithasau cyrff llywodraeth lleol perthnasol, cyn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, mae'n rhaid i archwilwyr roi sylw i'r angen i wneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus, gan gynnwys arbenigedd archwilio, a phwysigrwydd pwyslais ar y cyhoedd, yn enwedig gyda'r bwriad o ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch rheoli adnoddau cyhoeddus.

## Paru data

18 Caf gynnal ymarferion paru data at ddibenion atal a chanfod twyll.

19 Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus Cymru i atal a chanfod twyll, rwyf yn cynnal ymarfer paru data o'r enw y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus.

31 O dan adran 47 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

20 Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru yn cael ei redeg mewn cydweithrediad ag ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn galluogi data i gael eu paru ar draws ffiniau cenedlaethol. Er mwyn sicrhau dulliau cyson a lleihau dyblygu ymdrech, byddaf yn cydweithredu ag asiantaethau archwilio cenedlaethol eraill, gan gynnwys datblygu modiwlau paru data newydd ar y cyd, rhannu trefniadau prosesu data a rhannu adnoddau megis staff a chanllawiau technegol.

21 Rhaid i bob cyfranogwr mewn ymarferion paru data megis y Fenter Twyll Genedlaethol, a gynhelir gennyf f neu ar fy rhan, ymgymryd â’u gwaith yn unol â Cod Ymarfer Paru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Atodlen 2: Archwilio cyrff bach

1 Pan nodaf, bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol i archwiliad cyrff bach.

2 Rhaid i archwilwyr cyrff bach[32] gynnal archwiliad cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ac esboniad ychwanegol a ddarperir gan y corff er mwyn fy ngalluogi i fod yn fodlon ynghylch yr hyn a ganlyn:

a bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol;

b bod arferion priodol wedi eu harsylwi wrth grynhoi'r cyfrifon; ac

c bod y corff wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

3 Rhaid i archwilwyr gyflawni eu cyfrifoldebau[33], yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gennyf, drwy:

a adolygu cydymffurfiaeth â'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer paratoi cyfrifon blynyddol;

b cynnal adolygiad dadansoddol lefel uchel o'r wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a ddarperir i'r archwilydd; ac

c adolygu gwybodaeth ac esboniad ychwanegol o'r fath fel y bo'n angenrheidiol i ddarparu tystiolaeth ddigonol bod y corff wedi cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol, system rheoli mewnol ac archwilio mewnol digonol, a bod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, drwy gydol y flwyddyn ariannol.

4 Pan, ar sail adolygiad yr archwilydd, fo'r archwilydd yn gofyn am ragor o dystiolaeth mewn cysylltiad ag unrhyw fater perthnasol, mae'n rhaid cynnal profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

32 Cyrff sydd ag incwm blynyddol neu wariant blynyddol o dan derfyn ariannol a bennir gennyf fi ac a nodir mewn canllawiau yr wyf yn eu dosbarthu o bryd i'w gilydd.

33 Yn achos cyrff llywodraeth lleol, mae'n rhaid i archwilwyr sicrhau eu bod yn bodloni dyletswyddau adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

5 Pan fydd yr archwilydd wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a bod gwybodaeth ac esboniad ychwanegol a ddarperir, mae'r archwilydd yn rhoi barn ar y cyfrifon ac yn ardystio cwblhad yr archwiliad. Ar sail eu hadolygiad, mae archwilwyr yn rhoi sicrwydd nad oes unrhyw faterion sydd wedi dod i'w sylw gan beri achos i bryderu:

a nad yw'r cyfrifon a'r wybodaeth arall a ddarperir yn cyflwyno materion ariannol y corff yn iawn neu'n deg;

b nid yw'r cyfrifon a'r wybodaeth arall a ddarperir yn unol â'r gofynion penodedig; ac

c nid yw gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol wedi eu bodloni.

6 Caiff archwilwyr gyhoeddi allbynnau ychwanegol hefyd yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Er nad yw hyn yn gynhwysfawr, gallai hyn gynnwys:

a adroddiadau a wneir er budd y cyhoedd;

b datganiadau sy'n rhoi rhesymau yn dilyn gwrthwynebiadau a godwyd gan etholwyr awdurdod lleol;

c ymatebion i ohebiaeth; ac

ch sylwadau ar sail eithriad pan fo unrhyw ran o'r wybodaeth a adolygwyd yn nodi:

i nad yw'r corff archwiliedig wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; neu

ii fethiannau sylweddol gan y corff archwiliedig wrth gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu ddiogelu a hybu hawliau dynol.

7 Rhaid i archwilwyr roi sylw arbennig i'r angen i arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â chwestiynau a gwrthwynebiadau mewn archwiliad, a gohebiaeth arall, yn gymesur, fel sy'n ofynnol gan baragraff 45 o'r Côd, yn ogystal â mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol.

# Atodlen 3: Cwmpas y Cod

1 Mae darpariaethau y Cod hwn yn berthnasol i'r swyddogaethau canlynol ar sailstatudol:

a Archwilio unrhyw gyfrifon neu ddatganiadau cyfrifon y mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol eu harchwilio yn unol â darpariaeth a wnaed gan ddeddfiad, neu yn rhinwedd deddfiad.

b Cynnal, hybu, neu ymgymryd ag astudiaethau neu arholiadau gwerth am arian yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan ddeddfiad neu yn rhinwedd deddfiad.

c Y swyddogaethau hynny a gynhwysir yn narpariaethau canlynol Deddf Llywodraeth Cymru 1998, neu a drosglwyddir i'r Archwilydd Cyffredinol oddi tanynt:

i Adran 145A(2) (cynnal neu hybu astudiaethau eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan gyrff penodol);

ii Adran 145C(8) (datgelu gwybodaeth a geir yn ystod astudiaeth mewn cysylltiad â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru);

iii Adran 145D (darparu cyngor a chymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig);

iv Adran 146 (trosglwyddo swyddogaethau y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â chyrff penodol); ac

v Adran 146A (trosglwyddo ac ati swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chyrff penodol i'r Archwilydd Cyffredinol).

ch Y swyddogaethau hynny a gynhwysir yn y darpariaethau canlynol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

i Rhan 2 (archwilio cyrff llywodraeth lleol yng Nghymru);

ii Adran 45 (cynnal, neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaethau gweinyddu budd-daliadau); ac

iii Adran 51 (cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol i'r Ysgrifennydd Gwladol).

d Y swyddogaethau hynny a gynhwysir yn y darpariaethau canlynol o **Atodlen 8** i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006::

i Paragraff 17 (mynediad at ddogfennau); and

ii Paragraff 20 (ardystio hawliadau, ffurflenni ac ati ar gais corff).

2 Er nad yw’n ofynnol o dan statud, rwyf hefyd wedi penderfynu bod darpariaethau y Cod hwn yn berthnasol i::

a archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol a wneir o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015;

b archwiliadau arbennig o dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; ac

c yr agweddau penodedig ar wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol a ddarperir trwy gytundeb o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, megis cyngor i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.